

CANLLAW

Canllaw cyflym i

Ddeddf Priodas (Cyplau o'r un rhyw) 2013

Mae Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 (y Ddeddf) yn caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi yn unol â gofynion cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r canllaw hwn yn egluro prif oblygiadau'r Ddeddf, yn arbennig o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, trwy atebion i gwestiynau allweddol. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i gyplau o'r un rhyw sy'n dymuno priodi; sefydliadau crefyddol; cyflogwyr; cyflogeion a darparwyr gwasanaethau; awdurdodau cyhoeddus; undebau llafur; ac ysgolion.

Effaith ar gyplau o'r un rhyw

1. Pa effaith fydd y Ddeddf yn ei chael ar gyplau o'r un rhyw ym Mhrydain Fawr?

Mae'r Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 (y Ddeddf) yn ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr, a diwygiwyd deddfau priodas yn unol â hynny. Mae gwybodaeth ynghylch sut i briodi ar gael ar: <https://www.gov.uk/marriages-civil-partnerships>. Gall pob swyddfa gofrestru yng Nghymru a Lloegr gynnal priodasau sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw o 29 Mawrth 2014 ymlaen, er y bydd angen i gyplau sicrhau eu bod wedi rhoi'r rhybudd priodol cyn y dyddiad hwnnw. Bydd parteriaid sifil yn gallu trosi eu partneriaeth yn briodas ar ddyddiad diweddarach (sy'n debygol o fod erbyn diwedd 2014) yn unol â gweithdrefn i'w chyflwyno mewn Rheoliadau.

Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru briodi cyplau o'r un rhyw. Mae'n caniatáu i sefydliadau crefyddol eraill ddewis 'optio i mewn' i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau a gweithdrefnau priodi.

Mae gan yr Alban system gyfreithiol wahanol ac mae ganddi ei deddfwriaeth ei hunan ynghylch priodas. Mae priodas yn fater datganoledig i'w ystyried gan Senedd yr Alban, sydd wedi pasio Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (yrAlban) 2014. Cyn bod priodas cyplau o'r un rhyw yn dod yn gyfreithlon yn yr Alban, caiff priodas cwpl o'r un rhyw a ffurfir dan gyfraith Cymru a Lloegr ei thrin fel partneriaeth sifil yn yr Alban.

Yn yr un modd, mae priodas yng Ngogledd Iwerddon yn fater datganoledig. Caiff priodas cwpl o'r un rhyw a ffurfir dan gyfraith Cymru a Lloegr ei thrin fel partneriaeth sifil yng Ngogledd Iwerddon.

Cydnabyddir cyplau o'r un rhyw sy'n priodi tramor, lle mae'n bosibl, fel rhai priod yng Nghymru a Lloegr o 13 Mawrth 2014 ymlaen.

2. Pam na all cyplau drosi eu partneriaethau sifil yn briodas ar yr un amser mae'r gyfraith yn caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi?

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir ers i'r Ddeddf gael ei phasio yng Ngorffennaf 2013 y byddai'r broses o drosi partneriaeth sifil yn briodas yn cael ei gweithredu'n ddiweddarach na phriodas o gyplau o'r un rhyw gan y byddai angen cyflwyno gweithdrefnau a phrosesau cwbl newydd. I wneud priodasau o gyplau o'r un rhyw yn bosibl, gallai'r Llywodraeth adeiladu ar brosesau presennol er mwyn sicrhau bod ei weithredu'n symlach. Mae'r Llywodraeth yn anelu at gael popeth yn ei le i alluogi cyplau i drosi eu partneriaethau sifil yn briodasau erbyn diwedd 2014.

3. Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar unigolyn priod sy'n dymuno newid ei ryw cyfreithiol?

Mae'r Ddeddf Cydnabod Rhyw 2004 (GRA) yn galluogi unigolyn i newid ei ryw cyfreithiol trwy gyhoeddi Tystysgrif Cydnabod Rhyw (GRC) lawn. Os yw ymgeisydd am GRC yn briod neu mewn partneriaeth sifil, mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi terfyn ar y berthynas gyfreithiol honno cyn y gellir cyhoeddi GRC lawn (gan fod priodas dim ond wedi bod ar gael i gyplau o'r rhyw arall ac mae partneriaethau sifil ar gael i gyplau o'r un rhyw yn unig).

Bydd diwygiadau i'r GRA a wneir gan y Ddeddf yn galluogi cymar sy'n briod i rywun o'r rhyw arall sy'n dymuno newid ei ryw/rhyw cyfreithiol wneud hynny; bellach ni fydd rhaid iddi/iddo roi terfyn ar y briodas er mwyn derbyn GRC lawn. Yn lle, gall y briodas wreiddiol barhau fel priodas cwpl o'r un rhyw cyhyd â bod cymar yr ymgeisydd yn cytuno trwy wneud datganiad statudol.

4. A yw'n gyfreithlon i weithredu cyfyngiadau gwahanol ar fuddion pensiwn galwedigaethol cyplau priod o'r un rhyw?

Mae'r hawliau i fuddion pensiwn galwedigaethol ar gyfer cymar o'r un rhyw sy'n goroesi – hablaw am y rhai hynny a oedd yn briod i ddyn a newidodd ei ryw i fenyw – yn gyfyngedig dan y gyfraith cydraddoldeb domestig i fuddion a gronnwyd ers 5 Rhagfyr 2005. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn perthyn i gyplau priod o'r rhyw arall. Ar yr adeg ysgrifennu, mae ymgyfreitha ynghylch y ddarpariaeth hon wedi penderfynu ei fod yn gyfreithlon dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd trwy'r achos *Innospec Cyfyngedig ac Eraill v Mr J Walker (2014 UKEAT 0232)*. Fodd bynnag, gallai'r achos hwn symud ymhellach trwy'r llysoedd apêl fel nad yw'r casgliad hwnnw'n derfynol nag yn ddiffiniol ar hyn o bryd. Hefyd ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn adolygu gwahaniaethau o ran buddion goroeswyr cyplau o'r un rhyw a chyplau o'r rhyw arall

Effaith ar sefydliadau crefyddol

5. Sut mae sefydliad crefyddol yn penderfynu optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw a pha brosesau ddylai eu dilyn os yw'n gwneud hynny?

Mae'r Ddeddf yn datgan mai dim ond 'awdurdod llywodraethu perthnasol' (RGA) sefydliad crefyddol a all optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw.

Mae RGA sefydliad crefyddol yn gorff a gydnabyddir fel hynny gan ei aelodau fel corff sy'n mwynhau awdurdod drostynt. Mewn rhai achosion, hwn fydd y corff cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod o'r sefydliad hwnnw; mewn achosion eraill, lle nad oes strwythur hierarchaidd, bydd yn golygu cynulleidfaoedd neu grwpiau lleol. Mewn rhai achosion, bydd yr RGA yn gorff allanol. Mae y tu hwnt i gwmpas y cyfarwyddyd hwn i ddatgan yr RGA ar gyfer pob sefydliad crefyddol, ond dylai adrannau 4(4) a 5(5) y Ddeddf gynorthwyo wrth adnabod yr RGA.

6. A oes angen i sefydliadau crefyddol weinyddu priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw pan ofynnir iddynt?

Nac oes, dim ond sefydliadau crefyddol sydd wedi optio i mewn yn bendant a all weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw a gydnabyddir gan y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r mwyafrif o sefydliadau

crefyddol ddewis a ydynt yn dymuno 'optio i mewn' i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau a gweithdrefnau priodi.

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn rhyddid crefyddol, yn cydnabod fod y gred y gall priodas fod rhwng dyn a mewnwy yn unig yn gred sy'n haeddu parch mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae'r 'clo pedwarplyg' yn y Ddeddf yn golygu na ellir gorfodi sefydliadau crefyddol a'u swyddogion i optio i mewn neu briodi cyplau o'r un rhyw. Nid yw'n ofynnol iddynt gymryd safbwynt ar optio i mewn neu optio allan.

Ni all Eglwys Lloegr, yr Eglwys yng Nghymru a'u swyddogion optio i mewn na chynnal y fath briodasau (er y gall y naill gorff neu'r llall geisio newid i'r gyfraith er mwyn ei ganiatáu).

7. A all swyddog crefyddol weinyddu priodas cwpl o'r un rhyw os nad yw'r sefydliad crefyddol mae ef/hi yn gweithredu ar ei ran wedi optio i mewn?

Na all. Dim ond swyddogion sefydliadau crefyddol sydd wedi optio i mewn a all briodi cyplau o'r un rhyw. Os yw swyddog crefyddol sefydliad nad yw wedi optio i mewn yn priodi cwpl o'r un rhyw, mae'n debygol na chydnabyddir y briodas dan gyfraith briodas Cymru neu Loegr a bydd yn ddi-rym os yw'r cwpl yn ymwybodol nad yw'r sefydliad wedi optio i mewn.

Mae swyddogion crefyddol yn golygu'r rhai hynny sy'n cael eu penodi a'u hawdurdodi gan y sefydliad crefyddol i weinyddu neu i fod yn bresennol mewn priodasau yn ôl eu gweithdrefnau priodi.

8. A all swyddog a benodir i gynnal priodasau gan sefydliad crefyddol sydd wedi optio i mewn wrthod priodi cwpl o'r un rhyw?

Gall. Mae'r Ddeddf yn datgan na ellir gorfodi swyddogion crefyddol i gynnal unrhyw weithgareddau ynghylch priodi cyplau o'r un rhyw, hyd yn oed pan yw'r sefydliad crefyddol maent yn gweithio iddynt wedi optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw. Rydym yn cynghori'n gryf i sefydliadau sy'n optio i mewn a'u swyddogion drafod a chyd-gytuno pwy fydd a phwy na fydd yn priodi cyplau o'r un rhyw. Dylai hyn gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, a gan bwy, os digwydd fod swyddog yn gwrthod, ar fyr rybudd, i weinyddu ar briodas gan ei bod yn briodas cwpl o'r un rhyw. Bydd hyn yn helpu i osgoi gwrthdaro mewnol a bydd yn sicrhau y gellir cwrdd â disgwyliadau dilys a rhesymol cyplau o'r un rhyw.

9. A yw'n groes i gyfraith cydraddoldeb ac/neu hawliau dynol i wrthod optio i mewn neu i fethu â gwneud felly?

Nac yw. Oherwydd rhesymau a amlinellir yn ein dogfennau cyfarwyddyd, ni ddylai penderfyniad i beidio ag ymgymryd â phriodasau cyplau o'r un rhyw ymgysylltu â chyfraith hawliau dynol ac fe'i caniateir yn benodol gan gyfraith cydraddoldeb. Hyd yn oed os dygir ag achos o flaen y llys er mwyn dadlau y dylid gorfodi sefydliad crefyddol i ymgymryd â phriodasau cyplau o'r un rhyw, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai'r fath achos yn llwyddiannus.

10. A all swyddog sefydliad crefyddol gael ei gosbi am fynegi gwrthwynebiad i, neu gefnogaeth dros, briodi cyplau o'r un rhyw?

Na all, a bod hyn yn cytuno ag athrawiaethau ac ethos crefyddol y sefydliad maent yn ei gynrychioli. Mae sefydliadau crefyddol yn cadw'r hawl i gynnal a gorfodi ymlyniad wrth eu daliadau crefyddol.

11. A ellir gwrthod i sefydliad crefyddol gyrchu gwasanaethau, cyfleusterau neu gyllid cyhoeddus oherwydd ei gredau ar briodas cyplau o'r un rhyw?

Mae'n dibynnu ar berthnasedd credau'r sefydliad crefyddol ynghylch priodi cyplau o'r un rhyw i'r cyd-destun neilltuol. Er enghraifft, ni ddylai awdurdod cyhoeddus wrthod llogi ei safle sydd ar gael i'r cyhoedd dim ond oherwydd bod sefydliad crefyddol yn gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw, gan na fydd hon yn ystyriaeth berthnasol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn ystyriaeth berthnasol os yw ei farn ar briodas cyplau o'r un rhyw yn golygu na all sefydliad gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus heb wahaniaethu gan dorri ar gyfraith cydraddoldeb ac/neu hawliau dynol. Er enghraifft, gallai corff cyhoeddus sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus gymryd i gyfrif yn rhesymol gredau sefydliad crefyddol ar briodas cyplau o'r un rhyw wrth benderfynu ar gyllid ariannol ar gyfer gwasanaethau cyfarwyddyd priodas, ond mae'n annhebygol y bydd credau'r sefydliad yn berthnasol i ariannu darpariaeth o fanc bwyd. Mae'r angen i atal gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon wrth gyflenwi gwasanaethau neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus ar ran awdurdod cyhoeddus yn ystyriaeth bwysig sy'n debygol o fod yn ffactor allweddol.

12. A all sefydliad crefyddol wrthod darparu cwnsela priodas a gwasanaethau paratoi ar gyfer priodas, neu logi ei gyfleusterau allan, i gyplau o'r un rhyw?

Mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'n rhaid darparu'r fath wasanaethau neu gyfleusterau heb wahaniaethu yn erbyn cyplau o'r un rhyw pan drefnir bod nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd a phan yw prif bwrpas y sefydliad crefyddol yn fasnachol. Os nad yw'r sefydliad crefyddol yn un masnachol, gall y sefydliad crefyddol eu cyfyngu ar sail cyfeiriadedd rhywiol dan amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid darparu gwasanaethau a ddarperir ar ran, a dan gontract gydag, awdurdod cyhoeddus heb wahaniaethu oherwydd cyfeiriadedd rhywiol. Trafodir hyn yn fanylach yn ein cyfarwydyd ar gyfer y gweithle a chyfenwi gwasanaethau.

Rhyddid mynegiant

13. A yw'r Ddeddf yn amddiffyn rhyddid mynegiant, gan gynnwys rhyddid i fynegi credau crefyddol neu gredau eraill?

Ydyw. Mae pobl yn rhydd i fynegi barn bersonol ar briodas cyplau o'r un rhyw, gan ddibynnu ar ffurf y geiriau a ddefnyddir a'r cyd-destun neilltuol a ddefnyddir, yn amodol ar gyfyngiadau (gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 14) . Mae hyn yn perthyn i bob math o gyfathrebu'n gyhoeddus ac yn y gweithle. Bydd rheolau'r gweithle'n berthnasol, heblaw am ofynion sefydliadol a phroffesiynol eraill. Dylai unigolion sy'n mynegi cefnogaeth dros, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw, yn gyhoeddus neu yn y gwaith, wneud hynny mewn ffordd resymol a chymhedrol. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod bod y cred y gall priodas fod rhwng dyn a menyw yn unig yn gred sy'n haeddu parch mewn cymdeithas ddemocrataidd.

14. A oes cyfyngiadau ar yr hawliau i ryddid mynegiant a'r rhyddid i fynegi credau crefyddol neu gredau eraill?

Oes, gellir cyfyngu ar y ddwy hawl lle mae'n briodol ac yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae'n rhaid i unigolion sy'n mynegi cefnogaeth dros, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw yn gyhoeddus, osgoi ymddygiad dilornus neu fgygythiol sy'n anghyfreithlon. Ni ddylai ymddygiad yn ystod cyflogaeth neu ddarpariaeth o wasanaethau dorri ar ddeddfau ynghylch gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred (ac, lle mae'n berthnasol, nodweddion gwarchoddedig eraill dan Ddedf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf Cydraddoldeb)).

Yn y gwaith, mae cyflogwyr yn galw ar eu cyflogeion i ddilyn eu polisiau ynghylch urddas yn y gwaith ac/neu gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylai'r polisiau hynny adlewyrchu, a chael eu gweithredu yn unol â, hawliau unigol i ryddid mynegiant a'r rhyddid i fynegi credau crefyddol a chredau eraill.

Mae sefydliadau crefyddol yn disgwyl a gallant fynnu bod eu swyddogion yn cydymffurfio ag athrawiaethau crefyddol

Yn yr ysgol, mae'n rhaid i athrawon ddilyn rheolau ynghylch y cwricwlwm addysg ac ethos crefyddol yr ysgol. Eglurir y rhain yn ein cyfarwyddyd ar gyfer ysgolion.

Effaith ar ddarparwyr gwasanaethau

15. A all darparwyr gwasanaethau wrthod darparu gwasanaethau i gyplau o'r un rhyw sy'n bwriadu priodi?

Gallant a na allant – mae popeth yn dibynnu ar y math o ddarparwr gwasanaethau.

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd (ai am dâl neu beidio) wneud hynny heb wahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred neu nodweddion gwarchoddedig eraill sy'n gymwys. Ni chaniateir i unigolion a sefydliadau sy'n darparu'r fath wasanaethau, fel gwerthwyr blodau, ffotograffwyr, asiantaethau llogi ceir a darparwyr eraill o wasanaethau cysylltiedig â phriodas, wrthod darparu gwasanaethau i gyplau o'r un rhyw sy'n mynd i briodi.

Gellir cyfyngu ar wasanaethau a ddarperir ar sylfaen anfasnachol gan, neu ar ran, sefydliad yn gysylltiedg â chrefydd neu gred ar sail cyfeiriadedd rhywiol

dan amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid darparu gwasanaethau a ddarperir ar ran, a dan gontract gydag, awdurdod cyhoeddus heb wahaniaethu gwaharddedig yn gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol.

16. A all darparwr gwasanaethau i'r cyhoedd wrthod llogi ystafelloedd a chyfleusterau i unigolion a sefydliadau sy'n gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw?

Na allant. Dan y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail crefydd neu gred i wrthod darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau dim ond oherwydd bod unigolyn neu sefydliad yn gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw. Er enghraifft, os yw gwesty neu safle masnachol arall sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer priodasau sifil yn dymuno parhau i gynnal priodasau cyplau o'r rhyw arall, ni all wrthod gwneud hynny ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Naill ai byddai'n rhaid iddo gynnal pob priodas neu ofyn i'w drwydded ar gyfer priodasau gael ei dirymu.

Effaith ar awdurdodau cyhoeddus

17. Pa ddyletswyddau newydd a osodir o ganlyniad i'r Ddeddf ar swyddfeydd cofrestru priodas?

Erbyn hyn mae pob swyddfa gofrestru wedi'i dynodi i, ac mae'r gyfraith yn mynnu eu bod yn, cynnal priodasau sifil cyplau o'r un rhyw. Mae'r gofynion a ffurfioldebau ar gyfer priodas yr un peth ag ar gyfer cyplau sy'n bwriadu priodi mewn swyddfa gofrestru. Mae'r rhain ar gael ar: <https://www.gov.uk/marriages-civil-partnerships>

Gwaherddir swyddfeydd cofrestru a chofrestrwyr rhag trin cyplau o'r un rhyw yn llai ffafriol na chyplau o'r rhyw arall mewn cysylltiad â gwasanaethau priodas. Bydd hyn yn golygu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail cyfeiriadedd rhywiol wrth gyflenwi gwasanaethau neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

18. A all cofrestrwyr priodas wrthod cynnal priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw ar sail gwrthwynebiad cydwybodol?

Na allant. Os yw cofrestrydd priodas yn gwrthod cynnal dyletswyddau yn gysylltiedig â phriodas cyplau o'r un rhyw, bydd hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon.

Gall cofrestrydd y mae eu cred grefyddol neu gred arall yn eu hatal rhag ymgymryd â holl gyfrifoldebau eu swydd gyhoeddus yn sgil y Ddeddf archwilio'r opsiynau gyda'u cyflogwr. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith cyfreithiol yn caniatáu'n bendant i gyflogwyr roi eithriad i unigolion rhag unrhyw ran o'u dyletswyddau fel cofrestrydd. Ni wnaeth y Senedd ddarparu eithriad ar gyfer y pwrpas hwn yn y Ddeddf ac felly mae'n debygol iawn nad yw rhoi eithriad yn opsiwn a ganiateir, er nad yw hyn wedi'i brofi'n benodol yn y llysoedd.

19. A ellir cosbi caplaniaid am lynu at eu gofynion crefyddol?

Mae gan gaplaniaid yr un hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid crefyddol â phawb arall. Fel swyddogion sefydliadau crefyddol neilltuol, maent yn rhydd i fynegi barn ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw yn unol â'u hathrawiaeth grefyddol mewn pregeth grefyddol, neu mewn cyd-destunau crefyddol eraill.

Pan yn gweithio mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol fel carchardai, sefydliadau addysgol ac ysbytai, disgwylir i gaplaniaid ddilyn polisïau ac arferion urddas yn y gwaith a chyd-raddoldeb ac amrywiaeth y cyflogwr nad yw'n grefyddol. Ni all caplan wrthod darparu gwasanaethau caplaniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol pan yw'n gweithio mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol gan y byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon. Ni all caplan ddefnyddio cydymffuriad ag athrawiaeth grefyddol fel amddiffyniad yn erbyn ymddygiad gwahaniaethol dan yr amgylchiadau hyn.

Yn gyffredinol, dylid ystyried gweithredoedd neu ymddygiad caplan mewn sefyllfaoedd crefyddol a sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol ar wahân. Ni ddylai'r hyn mae ef/hi'n ei ddweud am briodas cyplau o'r un rhyw mewn pregeth grefyddol mewn eglwys fod yn sylfaen i gael ei anfanteisio neu i ddioddef niwed yn y gweithle nad yw'n grefyddol. Gallai hyn olygu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn y caplan ar sail crefydd neu gred.

20. A all awdurdodau cyhoeddus wrthod llogi ystafelloedd a chyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd i unigolion a sefydliadau oherwydd eu bod yn cefnogi neu'n gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw?

Na allant. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 bydd yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol i wrthod darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau i'r cyhoedd dim ond oherwydd bod unigolyn neu sefydliad yn gwrthwynebu neu'n cefnogi priodas cyplau o'r un rhyw.

21. A oes rhaid i awdurdodau cyhoeddus anwybyddu barn sefydliad ar briodas cyplau o'r un rhyw wrth gontractio allan, caffael gwasanaethau neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eraill?

Nid bob tro. Y cwestiwn allweddol yw, a yw'r farn honno'n berthnasol i'r cyddestun mae'r swyddogaethau cyhoeddus yn cael eu cynnal ynddo. Mewn llawer o sefyllfaoedd, bydd y fath farn, ai'n cefnogi neu'n gwrthwynebu, priodas cyplau o'r un rhyw, yn amherthnasol. Weithiau, fodd bynnag, bydd y farn honno'n berthnasol oherwydd, er enghraifft, gallai awgrymu na chaiff gwasanaethau eu darparu'n deg i bawb heb wahaniaethu anghyfreithlon, neu gallai ddatgelu y gallai buddiannau plant gael eu heffeithio'n niweidiol. Yn y sefyllfaoedd hynny, bydd barn y sefydliad ar briodas cyplau o'r un rhyw yn berthnasol ac yn ffactor pwysig i awdurdod cyhoeddus ei ystyried er mwyn atal gwahaniaethu anghyfreithlon neu er mwyn amddiffyn buddiannau'r plant.

22. A yw ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn galw ar awdurdod cyhoeddus i hyrwyddo priodas cyplau o'r un rhyw?

Nac ydyw. Nid yw'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' wrth ymarfer eu swyddogaethau'n golygu dyletswydd i gyflenwi canlyniadau rhagnodedig neu neilltuol. Felly nid yw'n galw arnynt i hyrwyddo priodas cyplau o'r un rhyw, er, yn yr un modd, nid yw'n eu hatal rhag wneud hynny. Mae'n rhaid i benderfyniadau neu weithredoedd fod yn gyson â dyletswyddau i beidio â gwahaniaethu yn erbyn cyplau o'r un rhyw ac/neu gyplau o'r rhyw arall.

23. A yw cydymffurfiad â ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010) yn galw ar awdurdod cyhoeddus i wrthod gweithio gyda'r rhai hynny sy'n gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw ?

Mae'n dibynnu ar berthnasedd y ddyletswydd i'r cyd-destun neilltuol. Bydd awdurdod cyhoeddus yn gweithredu'n anghyfreithlon os yw'n ceisio dibynnu ar y ddyletswydd cydraddoldeb i drin sefydliad yn anffafriol dim ond oherwydd ei gred ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw, lle nad yw hynny'n ystyriaeth berthnasol. Ni all, er enghraifft, ddefnyddio'r ddyletswydd i wrthod ymgysylltu â sefydliad dim ond oherwydd ei fod yn cefnogi, neu'n gwrthwynebu, priodas cyplau o'r un rhyw.

Mae'r ddyletswydd yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys ysgolion) yn rhoi 'sylw dyledus' i dri mater mewn cysylltiad ag wyth nodwedd warchoddedig (gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred ac ailbennu rhywedd) wrth ymarfer swyddogaethau cyhoeddus. Mae'n rhaid ystyried y ddyletswydd â digon o fanylder cyn y broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd cydraddoldeb yn rhagnodi canlyniadau neilltuol; nid yw'n cyfiawnhau cymryd penderfyniadau neu gamau gweithredu a fyddai'n anghyfreithlon ychwaith – gweler, er enghraifft, yr ateb i gwestiwn 20. Mae ein cyfarwyddyd ar briodas a'r gyfraith a'n codau ymarfer ar y ddyletswydd cydraddoldeb yn egluro hyn yn fanylach.

Effaith ar gyflogwyr a chyflogeion

24. Fel cyflogai, a allaf fynegi fy nghred neu farn ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw, naill ai o blaid neu yn erbyn, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith heb risg o gael fy nisgyblu gan fy nghyflogwr?

Gallwch. Mae pobl yn rhydd i fynegi barn bersonol ar briodas cyplau o'r un rhyw, yn dibynnu ar ffurf y geiriau a ddefnyddir a'r cyd-destun neilltuol y'i defnyddir ynddo. Mae hyn yn perthyn i bob math o gyfathrebu'n gyhoeddus ac yn y gweithle. Bydd rheolau a pholisïau'r gweithle'n berthnasol, heblaw am ofynion sefydliadol a phroffesiynol eraill. Dylai unigolion sy'n mynegi cefnogaeth o blaid, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw, yn gyhoeddus neu yn y

gwaith, wneud hynny mewn ffordd resymol a chymhedrol. Mae'r gred y gall priodas fod rhwng dyn a menyw yn unig yn gred sy'n werth ei pharchu mewn cymdeithas ddemocrataidd.

25. A all hawliau i ryddid mynegiant gael eu cyfyngu yn y gwaith?

Gallant, gall hawliau i ryddid mynegiant gael eu cyfyngu lle mae'n briodol ac yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill. Mae'n rhaid i unigolion sy'n mynegi cefnogaeth o blaid, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw yn gyhoeddus, osgoi ymddygiad dilornus neu fygythiol sy'n anghyfreithlon. Ni ddylai ymddygiad yn ystod cyflogaeth neu ddarpariaeth o wasanaethau dorri ar ddeddfau ynghylch gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred (a, lle mae'n berthnasol, nodweddion gwarchodedig eraill dan y Ddeddf Cydraddoldeb)

Yn y gwaith mae cyflogwyr yn disgwyl i gyflogeion ddilyn eu polisiau ynghylch urddas yn y gwaith ac/neu gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylai'r polisiau hynny adlewyrchu, a chael eu gweithredu yn unol ag, hawliau unigol i ryddid mynegiant a'r rhyddid i fynegi credau crefyddol a chredau eraill.

Mae sefydliadau crefyddol yn disgwyl i'w swyddogion gydymffurfio ag athrawiaethau crefyddol (gweler hefyd yr ateb i gwestiwn 10). Yn yr ysgol, mae'n rhaid i athrawon ddilyn rheolau ynghylch y cwricwlwm addysg ac ethos crefyddol yr ysgol. Eglurir y rhain yn ein cyfarwyddyd ar gyfer ysgolion.

26. A oes amgylchiadau lle mae'n rhaid i gyflogwr addasu dyletswyddau gwaith cyflogai er mwyn dilyn eu cred y dylai priodas fod rhwng dyn a menyw?

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gyflogwyr wneud felly. Mae'n rhaid i gyflogeion gynnal dyletswyddau gwaith yn unol â chyfraith gydraddoldeb ac yn unol â pholisiau gweithle eu cyflogwr, gan gynnwys polisiau ynghylch urddas yn y gwaith a chydaddoldeb ac amrywiaeth. Ni ddylai gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon ddigwydd yn erbyn cyflogeion neu ddefnyddwyr gwasanaethau eraill ar sail nodweddion gwarchodedig a gwmpasir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Gallai cyflogwyr a chyflogeion fel ei gilydd fod yn atebol am dorri ar y gyfraith os digwydd hyn.

Os ydych yn gweithio i werthwr blodau masnachol, ni allwch wrthod gwerthu blodau i gwpl o'r un rhyw sy'n mynd i briodi gan eich bod yn gwrthwynebu'r ffaith bod cyfraith Cymru a Lloegr yn ymestyn priodas sifil i gyplau o'r un rhyw. Os ydych yn gofrestrydd priodas, ni allwch wrthod weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw gan eich bod yn credu y dylai'r gyfraith gydnabod priodasau rhwng cyplau o'r rhyw arall yn unig.

Mae rheolau arbennig yn perthyn i sefydliadau crefyddol a'u swyddogion, ac i'r rhai hynny sy'n gweithio i sefydliadau crefyddol ac mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol fel ei gilydd (fel carchardai, ysbytai a sefydliadau addysgol). Darparwyd eithriadau penodol ynghylch cyflogaeth a chyflenwi gwasanaethau i sefydliadau crefyddol – gweler ein cyfarwyddyd ar briodas a'r gyfraith am fanylion pellach. Yn amodol ar ofynion cyfraith cydraddoldeb, dylid ystyried yr hyn a ddywedir mewn cyd-destun crefyddol yn hytrach na chyd-destun nad yw'n grefyddol ar gyfer pobl, fel caplaniaid, sy'n gweithio i sefydliadau crefyddol ac mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol fel ei gilydd.

Gweler hefyd ein hatebion i gwestiynau 18 ac 19 uchod ar sefyllfa gyflogaeth cofrestwyr priodas a chaplaniaid.

Effaith ar ysgolion

27. Sut mae addysgu'r cwricwlwm addysg yn cael ei effeithio gan y Ddeddf?

Disgwylir i ysgolion sy'n rhwym wrth addysgu'r cwricwlwm cenedlaethol ddilyn cyfarwyddyd statudol sy'n gofyn iddynt addysgu'r ffeithiau am briodas, yn ystod gwersi perthnasol. Os yw athrawon yn addysgu am briodas, dylent sicrhau bod eu haddysgu'n adlewyrchu'r ffaith bod priodas cyplau o'r un rhyw yn cael ei gydnabod gan y gyfraith yng Nghymru a Lloegr erbyn hyn. Ond nid oes angen iddynt ddweud unrhyw beth am briodas cyplau o'r un rhyw os nad ydynt yn addysgu am briodas. Mae ein cyfarwyddyd ar gyfer ysgolion yn egluro hyn yn fanylach.

28. A all ysgolion â chymeriad crefyddol addysgu am briodas gan ddilyn ethos crefyddol yr ysgol?

Gallant. Nid yw addysgu'r ffeithiau am briodas (gan gynnwys, lle mae'n berthnasol, y ffaith ei bod yn ymestyn i gyplau o'r un rhyw erbyn hyn) mewn ffordd gytbwys, rhesymol a sensitif yn golygu bod angen i ysgol â chymeriad crefyddol addysgu am briodas cyplau o'r un rhyw yn erbyn ei daliadau crefyddol. Caniateir o hyd iddi addysgu ei barn grefyddol neilltuol ar briodas.

29. A all ysgolion â chymeriad crefyddol ddal i recriwtio staff a gweithredu rheolau ymddygiad ar gyfer staff yn seiliedig ar ethos crefyddol yr ysgol?

Gallant, lle caniateir hynny dan y gyfraith. Nid yw'r Ddeddf yn effeithio ar allu ysgol â chymeriad crefyddol i ddilyn eu hethos crefyddol yn ystod recriwtio a chyflogi staff yn unol â gofynion perthnasol y Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r Ddeddf Cydraddoldeb.

30. Sut mae'r hawl i ryddid mynegiant, gan gynnwys mynegi credau crefyddol a chredau eraill yn gymwys pan yn addysgu?

Er bod gan athrawon yr hawl i ddal a mynegi credau personol ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw, pan ydynt yn addysgu mae'n rhaid iddynt hefyd gadw at reolau a pholisïau'r ysgol, safonau proffesiynol, rheolau ynghylch y cwricwlwm addysg cenedlaethol (lle maent yn gymwys) a gofynion ynghylch ethos crefyddol yr ysgol. Mae ein cyfarwyddyd ar gyfer ysgolion yn egluro ymhellach sut mae hawliau ynghylch rhyddid mynegiant yn gweithio yn y cyd-destun hwn.

31. Pa effaith mae'r Ddeddf yn ei chael ar ddyletswyddau ysgolion tuag at eu disgyblion?

Nid yw'r Ddeddf yn newid dyletswyddau ysgol tuag at ei disgyblion. Mae dyletswyddau gwrth-wahaniaethu ysgolion dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n cynnwys gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol, yn aros yr un peth. Mae dyletswyddau ysgol tuag at ddisgyblion ac ynghylch eu gofal a diogelwch (e.e. gwrth-fwlio) hefyd yn aros yr un peth. Mae hawl gan ysgolion i ddisgyblu disgyblion sy'n mynegi barn am briodas cyplau o'r un rhyw mewn ffyrdd sy'n bwlio.

32. Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar gyfrifoldebau Llywodraethwyr?

Disgwylir i Lywodraethwyr ysgolion, lle mae angen, helpu i ddyfeisio polisïau ysgol priodol ynghylch addysgu am briodas sy'n cydymffurfio â gofynion addysgu yng ngolau'r diffiniad estynedig o briodas. Gall Llywodraethwyr ymgynghori ac ymgysylltu â rhieni disgyblion er mwyn gwella dealltwriaeth rhieni ynghylch yr hyn a addysgir, mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac atal neu leihau'r angen i rieni ymarfer yr hawl i dynnu plant allan o wersi, lle mae hyn yn gymwys (gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 34 isod).

33. A all ysgolion wrthod llogi ystafelloedd a chyfleusterau i unigolion a sefydliadau sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw?

Na allant. Dan y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol, i wrthod darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd dim ond oherwydd mae unigolyn neu sefydliad yn cefnogi neu'n gwrthwynebu priodas cyplau o'r un rhyw.

34. A all rhieni dynnu eu plant allan o wersi sy'n addysgu am briodas cyplau o'r un rhyw?

Gallant, os yw'r addysgu'n rhan o wersi addysg rhyw neu addysg grefyddol, ond ni allant dynnu eu plant allan o wersi gwyddoniaeth ar atgynhyrchu pobl. Ni newidiwyd hawliau blaenorol rhieni i dynnu plant allan o wersi o ganlyniad i'r Ddeddf.

35. A oes gennyf hawl i gwyno os caiff fy mhentyn ei watwar yn yr ystafell ddosbarth oherwydd mynegi cefnogaeth o blaid, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw?

Oes, fel rhiant, mae gennych yr hawl i ofyn i ysgol ymchwilio i, a mynd i'r afael ag, unrhyw broblem lle mae'ch plentyn yn teimlo eu bod wedi'u trin yn anffafriol oherwydd y rheswm hwnnw. Dylai'r ysgol gymryd camau gweithredu priodol, lle mae angen, yn dibynnu ar amgylchiadau manwl pob digwyddiad ar ôl sefydlu'r ffeithiau. Dylai polisïau gwrth-fwlio a pholisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r fath ymddygiad.

Gwybodaeth bellach

Mae'r EHRC wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyfarwyddyd cyfannol:

Y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer priodas a'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr

Y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus

Y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer sefydliadau crefyddol

Y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y ddarpariaeth o addysg ysgol

Y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y gweithle a chyflenwi gwasanaethau

Gweler hefyd y codau ymarfer dilynol:

Cod Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 - Cod Ymarfer Statudol Cyflogaeth

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/employment_code.doc

Cod Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 – Gwasanaethau, Swyddogaethau

Cyhoeddus a Chymdeithasau

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/services_code.doc